# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Chwefror 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (313)v2

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd

(60 munud)

**NDM5943 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod cwpan Rygbi'r Byd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cyfnod pleidleisio

## 5 Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

(120 mins)

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Y disgrifiad o lefelau staff nyrsio**

3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26, 32

**2. Lleoliadau y byddai'r ddyletswydd yn gymwys iddynt**

45, 45A*, 46, 47A, 47, 5, 11, 40, 41, 42, 43, 44, 33, 34

**3. Cynllunio'r gweithlu**

35, 17

**4. Ymgynghori**

18, 19, 20

**5. Trefniadau adrodd**

36, 37, 23, 24, 25, 38, 1, 2, 39A, 39B, 39

**6. Cydymffurfio â'r ddyletswydd**

27, 28, 29, 30, 31

**Dogfennau Ategol**

Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Memorandwm Esboniadol Diwygiedig

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

## 6 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5944 Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

Cartref pêl-droed: y ddadl o blaid sefydlu amgueddfa genedlaethol bêl-droed yn Wrecsam

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Ionawr 2016 i'w hateb ar 3 Chwefror 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

**1. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(4)0409(NR)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i wella'r amgylchedd yn y Gymru drefol? OAQ(4)0412(NR)

**3. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru am ffordd goedwig Cwmcarn? OAQ(4)0411(NR)

**4. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0406(NR)

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o berygl ymsuddo sydyn? OAQ(4)0398(NR)

**6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rheoli gwelyau afonydd i atal llifogydd? OAQ(4)0399(NR)

**7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'r cynllun datblygu gwledig yn bwriadu gwella economi'r Gymru wledig? OAQ(4)0413(NR)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun trydan dŵr Rhaeadr y Graig Lwyd? OAQ(4)0403(NR)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bwriad i godi peilonau ar Ynys Môn? OAQ(4)0401(NR)**W**

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(4)0396(NR)

**11. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynrychiolwyr y diwydiant ffermio i sefydlu cynlluniau a allai atal achosion o lifogydd yn y dyfodol? OAQ(4)0408(NR)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganran y ffermwyr sydd wedi cael eu taliadau, yn llawn ac yn rhannol, o dan y cynllun taliad sylfaenol? OAQ(4)0404(NR)

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant a safonau proffesiynol swyddogion cynllunio yng Nghymru? OAQ(4)0405(NR)

**14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru eu cymryd os caiff gwastraff ei ddympio yn anghyfreithlon? OAQ(4)0402(NR)

**15. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad manwl o MTAN2? OAQ(4)0410(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i sefydlu ceiswyr lloches yng Nghymru? OAQ(4)0420(CTP)

**2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosglwyddo asedau cymunedol? OAQ(4)0417(CTP)

**3. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa systemau sydd ar waith i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0411(CTP)

**4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb ym maes cyflogaeth yng Nghymru? OAQ(4)0421(CTP)

**5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gymorth sydd ar gael i undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)0415(CTP)

**6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gwirfoddoli yng Nghymru? OAQ(4)0422(CTP)

**7. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cynhwysiant ariannol yng Nghymru? OAQ(4)0414(CTP)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddangosyddion tlodi yn y Gymru wledig? OAQ(4)0418(CTP)

**9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella ansawdd tai yng Nghymru? OAQ(4)0412(CTP)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau adfywio y mae ei hadran wedi'u gweithredu i gefnogi cymunedau ledled Canol De Cymru? OAQ(4)0423(CTP)

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch trydanol a charbon monocsid mewn eiddo rhent preifat? OAQ(4)0413(CTP)

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â gwrth-Semitiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0416(CTP)

**13. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector wirfoddol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0419(CTP)

**14. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei chael ar gymunedau yn Aberafan? OAQ(4)0424(CTP)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer trechu tlodi am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0425(CTP)